

Croeso

**Croeso i newyddlen gyntaf y
Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol.**

Yn dilyn cyhoeddi Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth i Gymru fis Mai eleni, mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol bellach wedi cymeryd ei chamau cyffrous cyntaf. Mae'r buddsoddiad allweddol hwn i addysg gerdd yng Nghymru yn cynnig cefnogaeth safonol a chyfleoedd cyffrous iawn i chi fel ysgolion dros y tair blynedd nesaf.

Mae eich gwasanaeth cerdd lleol ynghyd a phartneriaid allweddol yn ganolog i wireddu dyheadau'r Cynllun ac maent wrthi yn brysur yn datblygu cynigion newydd ar hyd a lled Cymru. Rydym eisoes wedi gweld y buddsoddiad anhygoel mewn offerynnau led led Cymru a heddiw, datblygiad arbennig arall sef aelodaeth i **Charanga Cymru**.

Mae Charanga Cymru yn bltafform digidol cyffrous sydd yn cefnogi'r Cynllun Cenedlaethol Cymru ar gyfer Addysg Cerddoriaeth. Rydym yn hynod falch o gyhoeddi fod eich aelodaeth i'r platform yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o arlwy'r Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol. Gallwch gael **mynediad rhwydd at yr adnodd ar ein gwefan**. Platform dwyieithog yw hwn wedi'i ddatblygu drwy waith partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Charanga Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel rhan o arlwy y Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol gyda chefnogaeth eich gwasanethau cerdd lleol, i ehangu mynediad at addysg gerdd yng Nghymru.

Mae Charanga yn bltafform digidol hynod boblogaidd sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio a'i adnabod yn rhwngwladol, ond mae Charanga Cymru wedi ei greu yn arbennig i Gymru ac yn llawn deunydd arbennig gan gerddorion ac artistiaid Cymreig.

I helpu athrawon i ddod yn gyfarwydd â'r platform newydd, mae pecyn o adnoddau ar gyfer chwe wythnos o waith ar gael i chi i ddechrau, a hynny ar gyfer pob un o'r camau cynydd ym maes y Celfyddydau Mynegiannol yn y Cwricwlwm i Gymru. Gall plant fwynhau canu, gwrando ac ymateb, byrfyfyrio, a chreu cerddoriaeth newydd. Mae yna hefyd adran doreithiog ar wersi offerynnol sydd yn wych ar gyfer dysgu ochr yn ochr â thiwtor gwasanaeth cerdd. Bydd yr adnoddau a gynigir yn cynyddu wrth i ni weithio gyda mwy o diwtoriaid, artistiaid a chyfranwyr Cymreig.

Mae Charanga Cymru yn addas i bawb. Mae'r pltafform hefyd yn cynnwys cynllun hyfforddi a datblygu proffesiynol helaeth ar gyfer athrawon ac ymarferwyr er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r platform i gefnogi cyflwyno gwersi cerddoriaeth yn ystod y dysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Rydym yn gobeithio y bydd Charanga Cymru, ochr yn ochr â'ch gwasanaeth cerdd lleol, yn dod yn rhan annatod o fywyd cerddorol eich ysgol.

Cofrestrwch yma ar wefan y Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol i gael mynediad i Charanga Cymru am ddim.

www.musicservice.wales
www.gwasanaethcerdd.cymru

Welcome

Welcome to the National Music Service's first newsletter

Following the publication of the new National Plan for Music Education in Wales in May, the National Music Service has taken its first few exciting steps. This significant investment in music education will offer quality support and exciting opportunities to maintained schools in Wales over the next three years.

Your local music service and key partners are central to the Plan's delivery, and they are currently busy delivering and developing new initiatives in many areas. We have already seen the fantastic investment in instruments across Wales, and today, we are delighted to introduce you to another new development – **Charanga Cymru**.

Charanga Cymru is an exciting digital platform that supports the delivery of Wales' National Plan for Music Education. You can **access it easily by signing up on our website**. The Welsh Government funds your Charanga Cymru membership in full as part of the National Music Service's offer. Developed by the Welsh Government, Charanga and the Welsh Local Government Association, Charanga Cymru is part of National Music Services offer, alongside your local music service, to widen access to music tuition and education across Wales.

Charanga is already used and recognised internationally as a digital music education resource, but this fully bilingual version is bespoke to Wales, complete with culturally-rich content from Welsh musicians.

To help teachers familiarise themselves with the new platform, we're initially providing six-week Units of Work for each progression step in the Expressive Arts Area in the Curriculum for Wales. Your students can enjoy singing, listening and responding, improvising, and creating new music. There is also an extensive instruments section with resources that are perfect for team teaching with your music service. The resources offered will grow exponentially as we work with more tutors, artists and contributors from Wales.

Charanga Cymru is suitable for all teachers and practitioners. The platform also includes an extensive training and professional development plan to ensure everyone feels confident in using the resource to support the delivery of music tuition during classroom learning.

We hope the platform, alongside your local music service, will become an integral part of your school's musical life.

Sign up [here](#) on the National Music Service website to access Charanga Cymru for free



Ariennir gan
Llywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

